

Er bod lles ein cydweithwyr a phreswylwyr tai bob amser yn hollbwysig yn ystod unrhyw archwiliad eiddo, yn ystod pandemig COVID-19, byddwn yn gofyn i'n syrfewyr a phob preswilydd gymryd camau ychwanegol er mwyn bod yn ofalus.

Dyma beth gallwch chi ei ddisgwyl:



Cyn yr archwiliad

Bydd ein syrfewr yn cysylltu â chi tua 30 munud cyn cyrraedd er mwyn cadarnhau'r apwyntiad. Efallai y bydd yn gofyn ambell gwestiwn i chi am yr eiddo ac yn gofyn i chi gadarnhau unrhyw newid yn yr amgylchiadau ers i'r apwyntiad gael ei wneud. Er enghraifft:

- "A oes unrhyw un yn y cartref wedi cael COVID-19 yn y 14 diwrnod diwethaf?"
- "A oes unrhyw un yn yr eiddo wedi dangos symptomau COVID-19 neu heb gwblhau cyfnod angenrheidiol o hunan-ynysu i aelwydydd?"
- "A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich teulu unrhyw un o symptomau COVID-19?"
- "A oes unrhyw un yn yr eiddo sydd yn y categori risg uchel/gwarchod neu a allai fod?" Os mai'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn ydy 'oes', ni fyddwn yn gallu parhau â'r archwiliad a bydd rhaid i ni aildrefnu apwyntiad.



Cyn i'r syrfewr gyrraedd:

- Cadwch unrhyw gathod a chŵn gyda chi trwy gydol yr archwiliad
- Awyrwch yr eiddo trwy agor yr holl ffenestri, os oes modd
- Er mwyn i lai o arwynebeddau gael eu cyffwrdd:
 - rhaid sychu pob handlen drws mewnol ac allanol yn lân
 - dylid agor pob drws ac agoriadau i lofftydd, gan gynnwys drysau unrhyw gypyrddau dan staer a chypyrddau crasu
 - rhowch y golau ymlaen ym mhob ystafell.



Yn ystod yr archwiliad

Pan fydd y syrfëwr yn cyrraedd, bydd yn gofyn i chi gadw at y rheolau pellter cymdeithasol 2 fetr.



Bydd ein syrfëwr yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol, neu PPE (mwigwd wyneb a menig tafladwy) wrth gynnal archwiliadau, bydd yn defnyddio clytiau diheintio i lanhau cyfarpar, a bydd yn defnyddio diheintydd dwylo trwy gydol y dydd.



Bydd y syrfëwr yn cynnal yr hyn a elwir yn 'asesiad risg deinamig neu weledol' pan fydd yn cyrraedd a gall atal yr archwiliad os bydd yn teimlo bod unrhyw risg.



Os bydd modd gwneud hynny, gofynnir i chi aros yn yr ardd neu mewn man addas arall tra bydd y syrfëwr yn archwilio'r eiddo. Os nad oes modd i chi aros mewn gardd neu ar ddreif, gofynnir i chi aros mewn ystafell ar wahân nes bydd y syrfëwr wedi cwblhau'r archwiliad.



Mae'n debyg y bydd y syrfëwr yn yr eiddo am tua 30 munud, ond gall fod gyda chi am fwy o amser, yn ddibynnol ar nodweddion yr eiddo.



Caniatewch amser i'r syrfëwr baratoi'r holl PPE / cyfarpar cyn yr archwiliad ac ar gyfer glanhau a diheintio popeth ar ôl yr archwiliad.



Unwaith eto, er mwyn i lai o arwynebeddau gael eu cyffwrdd, ni fydd y syrfëwr yn cau unrhyw ddrysau wrth adael eich eiddo, ond bydd yn rhoi gwybod i chi pan fydd yn gadael.



Peidiwch â theimlo'n chwithig, ond ni fydd ein syrfewyr yn gallu derbyn diodydd yn ystod yr archwiliad.